# Aelodau Teulu Aelodau'r Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

13 Hydref 2017

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 18 Medi, lle gofynnoch:

> *Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi enw pob Aelod Cynulliad sy'n cyflogi aelod o'u teulu fel aelod o staff.*
>
> *Ym mhob achos, nodwch beth yw'r berthynas â'r Aelod Cynulliad.*

Mae enwau Aelodau'r Cynulliad sydd ar hyn o bryd yn cyflogi aelodau o'r teulu yn cael eu cyhoeddi yng Nghofrestr Buddiannau'r Aelodau. Hefyd, cyhoeddir enw'r aelod o staff, ei berthynas â'r Aelod Cynulliad, ei swydd, dyddiadau cyflogaeth ac oriau dan gontract.

Gan fod y wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes yn weddol hawdd ei chael drwy ddulliau eraill.

Noder y caiff darpar staff cymorth sy'n aelodau o'r teulu eu recriwtio drwy gystadleuaeth agored a theg, a bydd yr Aelod Cynulliad dan sylw yn cael ei dynnu o'r broses benodi am gyhyd ag y bydd aelod o'i deulu yn ymgeisydd. Mae'r polisi recriwtio presennol yn nodi'r canlynol:
*'Bydd penodi aelodau o deulu Aelod Cynulliad ond yn cael ei ganiatáu os na fydd yr Aelod yn chwarae unrhyw ran yn y broses ddethol. Yn hytrach, bydd y broses hon yn cael ei chyflawni gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau.*
*Os na fydd aelod o'r teulu yn cael ei gynnwys ar y rhestr fer neu os bydd yn penderfynu tynnu ei gais yn ôl, yr Aelod Cynulliad fydd yn gyfrifol am y broses recriwtio unwaith eto.'*

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales



**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno’n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF